OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 878 (Cy.83)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU
# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Dileu Ffioedd) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *21 Mawrth 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 12(2), 15(3), 16(3), 22(7) a 118(5) i (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) ac adrannau 79F, 87D ,104(4) o Ddeddf Plant 1989 a pharagraff 7 o Atodlen 9A iddi(**2**) ac adran 94(6) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003(**3**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Dileu Ffioedd) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2006.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 1989" ("*the 1989 Act*") yw Deddf Plant 1989;

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000; ac

ystyr "Deddf 2003" ("*the 2003 Act*") yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

(**1**) 2000 p.14. Mae'r pwerau wedi'u rhoi i'r "appropriate Minister": *gweler* y diffiniad o "regulations" yn adran 121(1) o Ddeddf 2000. Ystyr "appropriate Minister", o ran Cymru, yw "the Assembly"; ystyr "the Assembly" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru: *gweler* adran 5(1)(b) o Ddeddf 2000. *Gweler* adran 121(1) o Ddeddf 2000 i gael y diffiniad o "prescribed". Yn rhinwedd O.S. 2004/1756 (Cy. 188), mae'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Rhan II o Ddeddf 2000 yn arferadwy mewn perthynas â chynlluniau lleoli oedolion.

(**2**) 1989 p.41. *Gweler* adran 79B o Ddeddf 1989 i gael y diffiniad o "regulations" ac adran 105 i gael y diffiniad o "prescribed". Mae'r pŵer o dan adran 87D wedi'i roi i'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn rhinwedd Erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), y cofnod ynglŷn â Deddf 1989 yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw ac adran 120(2) o Ddeddf Safonau Gofal 2000, mae swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 87D o Ddeddf 1989 yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru.

(**3**) Diddymwyd y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas ag adran 51 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 gan Ran 2 o Atodlen 14 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 ac a ddisodlwyd gan adran 94 o Ddeddf 2003.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dirymu**

**2.** Dirymir drwy hyn y canlynol—

(a) Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Ffioedd) (Cymru) 2002(**4**);

(b) rheoliad 35 o Reoliadau Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cymru) 2004(**5**);

(c) rheoliad 34 o Reoliadau Asiantaethau Gofal Cartref (Cymru) 2004(**6**);

(ch) rheoliad 28 o Reoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003(**7**);

(dd) rheoliad 51 o Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003(**8**);

(e) rheoliad 33 o Reoliadau Canolfannau Preswyl i Deuluoedd (Cymru) 2003(**9**);

(f) rheoliad 6 o Reoliadau Arolygu Ysgolion a Cholegau Preswyl (Pwerau a Ffioedd) (Cymru) 2002(**10**);

(ff) rheoliad 4 o Reoliadau Deddf Plant 1989 a Deddf Safonau Gofal 2000 (Rheoliadau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002(**11**).

(g) rheoliad 14(a) o Reoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002(**12**).

**Ffioedd rhagnodedig at ddibenion Deddf 2000**

**3.**—(1) At ddibenion adran 12(2), 16(3), 22(7)(i) o Ddeddf 2000 (ceisiadau am gofrestru), dim yw'r ffi ragnodedig ym mhob achos.

(2) At ddibenion adran 15(3) o Ddeddf 2000 (ceisiadau gan bersonau cofrestredig), dim yw'r ffi ragnodedig ym mhob achos.

**Y ffi ragnodedig at ddibenion Deddf 1989**

**4.**—(1) At ddibenion adran 79F(1) a (2) o Ddeddf 1989 (caniatáu neu wrthod cofrestru), dim yw'r ffi ragnodedig ym mhob achos.

(2) At ddibenion paragraff 7 o Atodlen 9A i Ddeddf 1989 (ffioedd blynyddol), dim yw'r ffi ragnodedig.

**Ffi benodedig at ddibenion Deddf 2003**

**5.** At ddibenion adran 94(7) o Ddeddf 2003 (adolygiadau ac ymchwiliadau), dim yw'r ffi benodedig.

(**4**) O.S. 2002/921 (Cy.109). Mae'r offerynnau diwygio perthnasol wedi'u rhestru yn nhroednodiadau (2) i (9) isod.
(**5**) O.S. 2004/1756 (Cy.188).
(**6**) O.S. 2004/219 (Cy.23).
(**7**) O.S. 2003/2527 (Cy.242).
(**8**) O.S. 2003/237 (Cy.35).
(**9**) O.S. 2003/781 (Cy.92).
(**10**) O.S. 2002/3161 (Cy.296).
(**11**) O.S. 2002/2935 (Cy.277).
(**12**) O.S. 2002/919 (Cy.107).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**13**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

21 Mawrth 2006

(**13**) 1998 c. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dileu'r holl ofynion o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 i ffioedd gael eu talu am gofrestru gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"). Maent yn dileu hefyd y gofyniad i ffioedd blynyddol gael eu talu am arolygiadau gan y Cynulliad o wasanaethau mabwysiadu a maethu awdurdodau lleol o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymdeithasol a Safonau) 2003, ac arolygiadau o ysgolion a cholegau byrddio o dan Ddeddf Plant 1989. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dileu methiant gan ddarparwyr o ran talu ffioedd fel sail dros ddileu cofrestru.